# Cofnodion 5ed cyfarfod Grŵp Dŵr Croyw CGBC

a gynhaliwyd yn Nhŷ Dewi Sant, y Drenewydd, am 10.30am
ddydd Mawrth 13 Medi 2010

**Yn bresennol:**
Tristan Hatton Ellis (THE) Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Huw Jones (HJ) Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Janet Buckles (JB) Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Rebecca Good (RG) Pond Conservation
Kate Williamson (KW) Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Gareth Davies (GD) Llywodraeth Cynulliad Cymru
Dai Roberts (DR) Riverfly Partnership Wales/Ymddiriedolaeth Afonydd Deddwyrain Cymru
Helen Cariss (HC) Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Kris Roberts (KR) Cyngor Sirol Torfaen
Emma Guy (EG) CGBLl Powys
Chris Uttley (CU) Cyngor Cefn Gwlad Cymru

**Ymddiheuriadau:**
Robin Woodyatt

1. **Croeso a Chyflwyniadau**
   Croesawodd THE Helen Cariss a Kris Roberts i'r grŵp.

2. **Cofnodion / camau gweithredu'r 4ydd cyfarfod**
   Derbyniwyd cofnodion y 4ydd cyfarfod fel cofnod cywir.

3. **Targed a chamau gweithredu ar gyfer CGB Dyfrol yng Nghymru**
   - Ni chafwyd unrhyw sylwadau yn dilyn y cyfnod ymgynghori ar y wefan ym mis Mehefin. Y camau gweithredu wedi'u derbyn bellach, ond y ddogfen i gael ei chadw'n fyw a'i diweddaru'n rheolaidd.
   - Cytunwyd ar gamau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer 2010-11 a chawsant eu dyrannu yn ystod y cyfarfod. Rhoddir eu gwedd derfynol ar y rhain a chânt eu cylchredeg erbyn Medi 27.

   **Cam gweithredu:** Pawb i roi rhagor o sylwadau i THE erbyn Medi 24.
   **Cam gweithredu:** THE i ysgrifennu at bersonau cyswllt CGB gan dynnu sylw at y camau gweithredu dŵr croyw â blaenoriaeth erbyn Medi 27.

4. **Diweddariad ar y gweithgaredd ac adnoddau presennol**
   - Misglen berlog yr afon: rhagor o waith adolygu wedi'i gyflawni eleni, poblogaethau newydd wedi'u canfod yn afonydd Irfon ac Afon Wen. Mae'r rhaglen fridio mewn caethiwed yn parhau.
   - *Potamanthus*: Dywedodd DR ei fod wedi ymweld â 3 safle posibl ar afon Wysg ac un ar afon Taf. Roedd gan un o'r safleoedd hyn gynefin

rhesymol ac roedd un yn gwbl anaddas. Canfuwyd *Potamanthus* ar un safle ar afon Tefeidiad

- Llwyd Mawrth/gwybedyn Mai llwyd talsyth: Mae'n debygol bod yna lawer o safleoedd anhysbys, gwaith adnabod yn anodd.
- Cynhyrchwyd cardiau post ar gyfer tair rhywogaeth, gwaith ar y gweill ar gardiau ar gyfer rhestr lawn infertebratau'r CGB
- Ffeil wedi cael ei chynhyrchu ar gyfer *Potamanthus*, cynlluniau i gynhyrchu ffeiliau ar gyfer rhestr lawn infertebratau'r CGB
- Y torgoch Arctig: tynnwyd wyau o bysgod yn Llyn Padarn, cafwyd problemau gyda'r amodau yn y ddeorfa dros yr haf ond mae 2,000 o bysgod yn dal yn fyw. Caiff oerwr newydd ei brynu. Wrthi'n ymchwilio i safle wrth gefn.

**Adnoddau**

- Angen cael ceisiadau erbyn Medi 30 i'w hychwanegu at restr prosiectau y flwyddyn nesaf ar gyfer cyllid gan AAC.
- Gwaith posibl creu pyllau dŵr yng Ngwent gyda Chyngor Caerffili. HJ fyddai person cyswllt AAC yn y gogledd. **Cam gweithredu:** Sylwadau at THE erbyn Medi 29, THE i ddrafftio llythyr.
- Soniodd CU am ddau brosiect posibl. 1. Mawnogydd a dirywiad mewn ansawdd dŵr - lle i ddatblygu ymchwiliad a gwaith rheoli dalgylch. Mae'n bosibl y bydd cwmnïau dŵr yn cyfrannu mewn perthynas â'r potensial i leihau costau hidlo. 2. Systemau carthion preifat mewn SoDdGA yn cyfrannu at ostwng ansawdd dŵr. Efallai y bydd yn bosibl canfod pa eiddo sydd dan sylw.
- Awgrymodd KR y gallai prosiect Tirweddau Anghofiedig ar Safle Treftadaeth y Byd, Blaenafon, fod yn brosiect partneriaeth priodol i'r grŵp. **Cam gweithredu:** RG i roi cyngor oddi wrth Pond Conservation am byllau dros dro.
- Cimwch afon crafanc wen Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid (ARC): y mannau a phersonau cyswllt gorau yw Sw Môr Môn, Mike Howe a John Taylor yn Neorfa Cynrig. **Cam gweithredu:** RG i geisio cyngor gan John Taylor.

**5. Y Fframwaith Amgylcheddol Cenedlaethol**

- Mae'r grŵp wedi rhoi sylwadau manwl ar Naratif 2 a 3 y FfAC, a bwriwyd ymlaen â llawer ohonynt yn y drafft terfynol. Diolchodd THE i'r grŵp am eu cyfraniad. Roedd pryderon yn cael eu codi o hyd am allu a phŵer y grŵp i gyflenwi'r FfAC, a gallai hyn fod yn broblem allweddol o ran y gwaith cyflenwi.
- Caiff y FfAC ei lansio gan y Gweinidog, Jane Davidson, yn Seminar y CGBLl ar ddydd Mercher Medi 15, a bydd rhagor o ymgynghori yn dilyn.

**6. Cynnydd Glastir**

Rhoddodd Gareth Davies diweddariad ar y cynnydd.

- Y pecynnau cais i gael eu dosbarthu erbyn Hydref 4, i'w dychwelyd gan yr ymgeiswyr erbyn Tachwedd 22.
- Dewis o 40 opsiwn, angen 28 pwynt am bob hectar i fod yn gymwys.

- Cerdyn sgorio i gynnwys Cymru gyfan a phecynnau rhanbarthol, gyda phecyn ychwanegol ar gyfer ffermydd godro.
- Cyfradd safonol o £28 yr hectar ar gyfer elw a gollir
- Bydd gofyniad ar gyfer cynnal a chadw wedi'r gwaith creu.
- Caiff digwyddiadau hyfforddi ar gyfer adnabod cynefinoedd a chymorthfeydd agored eu cynnal dros yr ychydig wythnosau nesaf.
- Codwyd y posibilrwydd o gael cymorth gan sefydliadau eraill mewn perthynas â'r rhaglen hyfforddiant, ond bydd hyn yn dibynnu ar gapasiti.

**Cam gweithredu:** Pawb i ystyried materion ymarferol mewn perthynas â darparu cymorth priodol.
**Cam gweithredu:** GR i anfon manylion y digwyddiadau agored at JB i gael eu cylchredeg.

**7. Diweddariad Afonydd Cymru**

- Mae'r gwe-gamera teledu cylch cyfyng ar ddyfrgwn wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus ar gyfer gwaith addysgol.
- Hyfforddwyd gwirfoddolwyr yn nalgylchoedd afonydd Sir Gaerfyrddin, Dyfrdwy, Clwyd a Chonwy i ddefnyddio chwynladdwyr i reoli clymog Japan a Jac y Neidiwr.
- Y gronfa bysgodfeydd Ewropeaidd a weinyddir gan LlCC bellach wedi cael ei rhyddhau i Afonydd Cymru ar ôl i anawsterau ariannol gael eu datrys. Fodd bynnag, nid yw'r amserlen wedi newid felly bydd cyflawni'r gwaith yn yr amser sydd ar gael yn heriol, oherwydd bod cyfnod yr haf, pan mae'r gwaith hawsaf, wedi cael ei golli.

**8. Diweddariad Miliwn o Byllau**

- Mae arian ar gael i greu pyllau dŵr yng Nghymru a Lloegr, mae'r manylion ar y wefan. Mae'r trydydd cylch ariannu, sef yr olaf, yn agored erbyn hyn.
- Mae pecyn cymorth Miliwn o Byllau ar lein erbyn hyn.
- Mae ffeil rhywogaeth llygoden bengrwn y dŵr ar lein erbyn hyn, ac mae gwaith yn mynd ymlaen ar ffeiliau eraill.

**9. Materion polisi**

- Ymddengys nad oes mecanwaith i reoli gwaith cloddio graean mewn afonydd nad ydynt yn brif afonydd nac ar safleoedd heb eu dynodi. Rhoddodd HJ enghraifft o broblemau ar safle penodol a dywedodd nad oedd yn ymwybodol o unrhyw bolisi gan AAC mewn perthynas â'r arfer hwn.
- Cododd EG fater anodd asesu effeithiau cyfunol prosiectau wrth gyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio ar gyfer nifer o unedau wyau yn yr un ardal dalgylch afon. Gall y gwastraff a daenir ar dir cyfagos achosi problemau o ran llygredd tryledol.
- Bydd ymgynghori ar Reoli Perygl Llifogydd yn arwain at strategaeth genedlaethol ar gyfer afonydd ac arfordiroedd. Gallai dull prosesau naturiol nodi buddion penodol.

- Dyletswyddau newydd ar Awdurdodau Lleol o ran draenio cynaliadwy mewn ceisiadau cynllunio. Yr ALl yw'r corff cymeradwyo a rhaid iddo fabwysiadu'r system.
- Diheintio rhwng cynefinoedd afonol. Mae gofynion ar gyfer offer pysgota ond nid cychod. Angen ei ystyried fel gweithdrefn safonol ond byddai angen deddfwriaeth.
  **Cam gweithredu:** THE i anfon sylwadau at grŵp polisi CGBC.
  **Cam gweithredu:** Y grŵp i roi ymateb, HJ i arwain a CU a THE i gylchredeg y drafft.

**10. Materion rhywogaethau**

Wedi cael eu hystyried o dan eitemau eraill

**11. Cynnig Cyfarfod Bioamrywiaeth Dŵr Croyw**

Ni fydd CCGC yn cynnal seminar Morol a Dŵr Croyw eleni, ond efallai y bydd modd trefnu seminar Bioamrywiaeth Dŵr Croyw yn lle hynny. Cytunodd y grŵp y byddai hwn yn ddigwyddiad defnyddiol.
**Cam gweithredu:** THE i edrych ar adnoddau posibl ar gyfer dyddiad posibl ym mis Chwefror a'r posibilrwydd o wahodd cynrychiolydd o'r grŵp rhywogaethau estron.

**12. Unrhyw fusnes arall**

- Cynhadledd y Riverfly Partnership i'w chynnal yn yr Amgueddfa Astudiaethau Natur yn Llundain ar 10 Mawrth 2011
- Trafodwyd y wybodaeth a gylchredwyd gan THE ynghylch problem *Dikerogammarus* yng nghronfa ddŵr Grafham. Er yr anawsterau, mynegwyd gobaith y byddai modd ei rheoli.

**13. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

- Cytunwyd ar ddydd Mercher Mawrth 16 2010, yn Nhŷ Dewi Sant.
- Janet Buckles i gadarnhau llogi'r ystafell yn Nhŷ Dewi Sant